# DIL

## 1 HAU DY HADAU

O fis Ebrill ymlaen, gelli di hau'r hadau'n syth i wely llysiau. Heua nhw 0.5cm o ddyfnder mewn rhigolau, gyda 30cm rhwng pob rhigol. Rho ychydig bach o bridd dros y rhigolau.


Neu gelli di hau'r hadau rhwng y planhigion sy'n tyfu'n barod neu o gwmpas ymylon y gwely llysiau.

## 2 TENEUO

Pan fydd y planhigion bach yn 5 – 10cm o daldra, dechreua dynnu'r rhai llai a gwannach. Gadawa 10cm rhwng pob planhigyn.

## 3 CYNAEAFU

Dylet ti hel y dail pan maen nhw'n ifanc, er mwyn annog mwy i dyfu. Gelli di hel y dail pryd bynnag rwyt ti eu hangen nhw drwy'r haf.




## COFIA

Rho ddŵr yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y pridd byth yn sychu.

Mae dail a hadau dil yn cael eu defnyddio mewn bwyd i roi blas anis cynnil.

Defnyddia'r hadau a'r dail mewn cawl dil a moron.


Newydd egino


Planhigion ifanc


Barod i'w hel

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES